# Y TINCER

PRIS 40c

Rhif 305

Ionawr 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# PENCADLYS NEWYDD I STRATAMATRIX

Mae un o gwmniau cyfathrebu mwyaf adnabyddus Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn symud o Aberystwyth i safle newydd y tu fâs i'r dre ar gampws Gogerddan ger Bow street.

Sefydlwyd StrataMatrix ym 1979 fel yr asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus dwyieithog cyntaf yng Nghymru ac mae'r cwmni ar fin symud o'i hen gartref yn Rodfa'r Gogledd yng nghanol tref Aberystwyth i adeilad ar safle y ganolfan ymchwil amgylcheddol IGER Gogerddan ger Bow Street, dwy filltir i'r gogledd o'r dre.

Mae StrataMatrix yn gweithredu o swyddfeydd yn Aberystwyth a Bae Caerdydd ac yn cyflogi 20 o staff sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus, materion cyhoeddus, trefnu digwyddiadau a monitro

Bu pencadlys y Cwmni yn 25 Rhodfa'r Gogledd Aberystwyth ers 1984.

Dywedodd Arwyn Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr StrataMatrix bod y symudiad yn garreg filltir nodedig yn natblygiad y Cwmni.

"Mae'r cyfle i symud i Gogerddan wedi dod yn sgil yr uniad arfaethedig rhwng canolfan ymchwil IGER a Phrifysgol Aberystwyth i greu IBERS (Institute for Biological Environmental Rural Sciences). Bydd yr adeilad newydd, a ddefnyddiwyd fel labordai ers y pumdegau yn gartref ymarferol o safon i'n staff cysylltiadau cyhoeddus, monitor papurau newydd a gweinyddiaeth y Cwmni a hynny mewn amgylchedd gwledig prydferth ar hen stâd hanesyddol Gogerddan.

"Yn gynharach eleni hefyd fe ddyblwyd maint ein swyddfa ym Mae Caerdydd i gyfarfod ag anghenion clientau sy'n chwilio am gefnogaeth ac arweiniad gwleidyddol yn sgil cyflwyno pwerau newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol



# Arian i Drefeurig

Diolch i grant gan gronfa Risg Gymdeithasol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), bydd trigolion pentrefi gwledig plwyf Trefeurig yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd, o ddefnyddio'r rhyngrwyd i ddrymio!

Wedi'u lleoli yn adeilad Ysgol Trefeurig, a gaeodd yn ddiweddar, bydd amrywiaeth o gyrsiau blasu, gan gynnwys 'Extend' ar gyfer trigolion hŷn, cerdded Nordig er mwyn cael gwared â rhai o'r mins peis yna a gwersi dawnsio ar gyfer dilynwyr 'Strictly Come Dancing' yn cael eu trefnu, yn ogystal â drymio, TG i ddechreuwyr a defnyddio'r rhyngrwyd.

Gwnaeth GrÐp Datblygu Ysgol Trefeurig gais am yr arian fel rhan o astudiaeth dichonolrwydd i asesu a ellir cynnal adeilad Ysgol Trefeurig yn economaidd fel canolfan gymunedol.



O'r chwith i'r dde: Ann Jeremiah, Ruth Davies - Cydlynydd y Prosiect, Fil Wills a Jane Guest

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 305 | Ionawr 2008

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - dylunio graffeg 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street 828337

**TRYSORYDD** - David England
Pantyglyn, Llandre 828693

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach 880335
Elwyna Davies, Tyncwm 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

**Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD CHWEFROR 7 CHWEFROR 8 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI CHWEFROR 21**

IONAWR 17 Nos Iau Noson gomedi gyda Tudur Owen fel PC Leslie Wynne yng ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.30 o'r gloch. Tocynnau yn £4 (ar gael o Dots) a'r elw'n mynd at bwyllgor apêl Aberystwyth ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2010. Bydd cwmni teledu Boomerang yn ffilmio'r noson

IONAWR 18 Nos Wener Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn dathlu'r plygain gyda Dr Rhiannon Ifans a Pharti'r Penrhyn am 7.30

IONAWR 25 Nos Wener Cwis cangen Plaid Cymru Bro Dafydd yng Nghlwb Golff Capel Bangor am 7.30

IONAWR 25 Nos Wener Cwis yn Neuadd Rhydypennau am 7.30 Trefnir gan Bwyllgor y Neuadd

IONAWR 30 Nos Fercher Noson goffi Mudiad y Chwiorydd Adran Ceredigion Bedyddwyr ym Methel, Aberystwyth am 7.30 Stondinau ac adloniant Trefnir gan Bethel a Horeb, Penrhyn-coch

CHWEFROR 5 Nos Fawrth Ynyd. Noson Grempog ac Adloniant i ddilyn yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

CHWEFROR 6 Pnawn Mercher Chwiorydd y Garn Hanes eu hymweliad â Phatagonia gan Gwenda a W J Edwards

CHWEFROR 14 Nos Iau Dr Gwyn Penrhyn Jones, Tal-y-bont, 'Troeon yr Yrfa' Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30

CHWEFROR 15 Nos Wener Ymweliad ag Ysbyty Jowai, India gyda Gwynn Angell Jones, Y Felinheli Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

CHWEFROR 19 Arad Goch yn cyflwyno 'Mwnci ar dân' yn Aberystwyth am 7.30 Lleoliad i'w drefnu 617998

CHWEFROR 20 Nos Fercher Rheinallt Llwyd yn sôn am Fro a Bywyd Islwyn Ffowc Elis Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

CHWEFROR 26 Pnawn Mawrth Eisteddfod Ddawns (gwerin, disgo a chreadigol) yr Urdd cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau am 4.00.

CHWEFROR 27 Pnawn Mercher Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch Aberystwyth yn Ysgol Gynradd Comins-coch am 1.30

CHWEFROR 28 Dydd Iau Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgolion y dref

CHWEFROR 28 Prynhawn Iau Eisteddfod uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig am 1.30

CHWEFROR 29 Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais

MAWRTH 5 Pnawn Mercher Eisteddfod Ddawns (gwerin, disgo a chreadigol) yr Urdd rhanbarth Ceredigion - cynradd ac uwchradd yng Nghanolfan y Celfydddyau - am 13.00.

MAWRTH 5 Nos Fercher Eisteddfod Aelwydydd yr Urdd rhanbarth Ceredigion yng Nghanolfan y Celfyddydau -- am 6.15

MAWRTH 6 Dydd Iau Diwrnod y llyfr

MAWRTH 8 Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd ac offerynnol yr Urdd rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigadi am 9.00 y bore.

MAWRTH 14 Prynhawn Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Gyfun Pen-glais am 1.00

---

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.

Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.

Deunydd i'w gynnwys

Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

**Y Tincer drwy'r post**

Pris 10 rhifyn - £9 (£17 i wlad y tu allan i Ewrop).Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp**

Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street 828555.

**Camera'r Tincer**

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street ( 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Prosiect Papurau · Antur Teifi · Yr Undeb Ewropeaidd Amcan 1

## OS MÊTS" yn edrych ymlaen

Fel y gwyddoch, sefydlwyd "OS MÊTS" i hyrwyddo gweithgareddau ymhlith ieuenctid eglwysi a chapeli Gogledd Ceredigion mewn awyrgylch Gristnogol. Cafwyd ymateb hynod gefnogol yn ystod tymor yr hydref, gyda gwahanol weithgareddau a thrafodaethau yn ennyn diddordeb ieuenctid yr ardal – gan gynnwys ymweliad â'r pantomeim yn Felin-fach yng nghanol mis Rhagfyr.

Mae rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn yn cael ei llunio a bydd rhai o Swyddogion Ieuenctid Coleg y Bala yn cynnal gweithgareddau. Mae croeso i unrhyw ieuenctid o oedran ysgol uwchradd i ymuno yn y gweithgareddau – cyfle gwych i gymdeithasu gyda chyfoedion mewn awyrgylch lawen a rhydd.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gefnogi'r fenter, ond rydym yn chwilio am wirfoddolwr sydd â diddordeb mewn gwaith ieuenctid i gymryd at arweinyddiaeth "OS MÊTS". Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â'r Parch Wyn Morris [01970-820920] neu Dewi Hughes [01970-828026].

Eisoes cafwyd nawdd drwy Gronfa Eleri, eglwysi a chapeli'r cylch ynghyd ag unigolion i gynnal y gweithgaredd – a gwerthfawrogir pob cyfraniad.

# GOGINAN

## Cydymdeimlad

Taenwyd cwmwl tywyll o dristwch dros deulu Melody wythnos cyn y Nadolig pryd y collodd Rebecca, merch Peter a Eileen Jones a chwaer i Richard, ei gŵr Geraint yn frawychus o sydyn ar ôl gwaeledd byr iawn. Gweithio yn yr adran ffotograffiaeth a dylunio yn y Brifysgol oedd Geraint, yn ganlynwr brwdfrydig o dim pêl-droed Lerpwl yn ogystal â bod yn aelod selog o grwp roc cerddorol yn ei bentref genedigol – Llanbadarn Fawr. Roedd Geraint a Rebecca a'u merch fach Ffion wedi ymgartrefu'n hapus ers peth amser yn Llanilar ond ers y drychineb mae Rebecca a Ffion nôl ym mynwes cartref ei rhieni yng Ngoginan. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu ar eu colled enfawr.

## Genedigaeth

Ychydig cyn y Nadolig ganwyd Cillian, mab bach i Dylan a Sheila ym Manceinion. Llongyfarchiadau i dad-cu a mam-gu, sef Maldwyn a Eirlys Davies, Brynmeillion sydd wrth eu bodd gyda dyfodiad eu ŵyr bach cyntaf.

## Pen blwydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i dri o drigolion Goginan. Maldwyn Davies, Brynmeillion, wedi dathlu ei ben blwydd yn 80 oed. Morfudd Ingram, Brynmelindwr, wedi cyrraedd oedran derbyn tocyn rhad ar y bws. Eluned Roberts (Penbryn) ar hyn o bryd yng Nghartref Bodlondeb, Penparcau wedi dathlu ei phen blwydd yn 60 oed.

## Gwella

Mae Mrs. Pauline Vivash, Mount Pleasant, wedi dod adref ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Dymunir iddi wellhad buan a phob dymuniad da i'r dyfodol

## Y Druid - Cystadleuaeth Pŵl

Ar noswaith gŵyl San Steffan cynhaliwyd Cystadleuaeth flynyddol Pŵl am darian er cof am y diweddar Moc Jenkins. Wedi cystadlu brwd, gyda dros ugain yn ymryson cyrhaeddodd Dewi Edwards o Drefeurig a Steve Jones o Gwmbrwyno y rownd derfynol. Ar ôl cystadleuaeth dda fe enillodd Dewi gan roddi enw newydd ar y darian.

## Noswyl y Nadolig

Croesawyd pawb gyda gwydraid o win a mins pei cyn cael noswaith o ganu carolau er mwyn cael pawb yn hwyl yr ŵyl. Nos Sadwrn cyn hynny cynhaliwyd y raffl flynyddol ; elw y noswaith yma sydd yn helpu ychydig at gostau partion Nadolig Y Druid i'r plant ac i'r Henoed

Ar noswaith ola'r flwyddyn daeth llu o ffrindiau ynghyd i groesawu'r flwyddyn newydd. Cafwyd noson hwyliog gyda'r dathlu'n ymestyn ymlaen i oriau mân y bore.

# DOL-Y-BONT

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Pat Norrington Davies, Y Mans, a fu mor anffodus a syrthio a thorri ei braich. O ganlyniad bu'n rhaid iddi fod yn Ysbyty Bron-glais am rai diwrnodau. Gobeithio y bydd yn well yn fuan.


Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion.
13 Stryd Y Bont, Aberystwyth
01970 626200

O dan y môr â'i donnau, Mae llawer dinas dlôs, Fu'n gwrando ar y clychau, Yn canu gyda'r nôs...
oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Y BORTH

## Llongyfarchiadau

Bu achos i ddathlu ddwywaith yn "Bel-Air", cartref Mr Aran a Mrs Eileen Morris, dros y Flwyddyn Newydd. Daeth Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd a'r newyddion bod Aran wedi cael ei anrhydeddu gyda'r MBE mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaethau oes i ddiogelwch ar y môr. Ac ar ddydd Sul, 30 Rhagfyr, dathlodd Aran ac Eileen eu priodas ddeimwnt, sef 60 mlynedd o briodas hapus. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da.

## Dyweddiad

Cyhoeddwyd, yn ddiweddar, ddyweddiad Mr Jonathan Griffiths, Y Fictoria, a Miss Laura Gunner, Guildford, Swydd Surrey. Anfonwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau at y ddau.

## Gerlan

Prynhawn Gwener 4ydd Ionawr cynhaliwyd oedfa gyntaf 2008. 'Roedd yn oedfa undebol gydag aelodau Eglwys Sant Mathew ac Eglwys y Gerlan yn cymryd rhan. Cawsom oedfa fendithiol a da i ni fod yno. Lluniwyd y gwasanaeth gan y gweinidog, y Parchg Wyn Rh. Morris ac yntau hefyd a draddododd yr anerchiad. Pwysleisiodd inni fod yr Arglwydd Iesu gyda ni heddiw, yfory, drennydd a hyd byth. 'Roedd cynulliad teilwng iawn yn yr Oedfa, a gwnaed casgliad o £100 tuag at Cymorth Cristnogol. Yr organydd oedd Eurgain Rowlands a hithau hefyd a roddodd y blodau.

## Clwb yr Henoed

Mae Clwb yr Henoed yn gwybod i'r dim sut i ddathlu tymor y Nadolig. Prynhawn dydd Mercher, 6 Rhagfyr, mwynhawyd Te Nadolig yn Neuadd Gymunedol Y Borth: darparwyd y Te gan bwyllgor y Clwb a threfnwyd cwis gan Mrs Ann Newby. Dydd Mercher, 13 Rhagfyr, cynhaliwyd Cinio Nadolig yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth, lle difyrrwyd yr aelodau gan blant Ysgol Llwyn yr Eos, Penparcau, gyda rhaglen o ganeuon tymhorol. Ac i ddechrau'r Flwyddyn Newydd fe gafwyd Te arall, wedi'i ddarparu gan y pwyllgor, yn Neuadd Gymunedol Y Borth. Ni fydd chwant bwyd ar neb yng Nghlwb yr Henoed am ysbaid felly.

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Cyfarfu'r Gymdeithas Gymraeg yn Festri Capel y Gerlan nos Fercher, 12 Rhagfyr. Y Cadeirydd oedd y Parchg Elwyn Pryse.

Gŵr gwadd y noson oedd Mr Gerald Morgan, a siaradodd yn ddiddorol am ei awch am gasglu hen lyfrau. Mae Mr Morgan bob tro yn siaradwr poblogaidd ac roedd pawb yn werthfawrogol o'i sgwrs a ddilynwyd gan drafodaeth frwd dros gwpaned o de.

## Ffair Elusennau

Er gwaethaf tywydd neilltuol o wlyb ddydd Sadwrn. 8 Rhagfyr, roedd Neuadd Gymunedol Y Borth dan ei sang drwy'r bore a'r prynhawn gydag ymwelwyr i'r Ffair Nadolig. Daeth elusennau lleol o bob math at ei gilydd gyda stondinau, rafflau a gêmau at ddant pawb. Trefnwyd yr holl gan Scowtiaid Y Borth a diolchir yn gynnes iddynt am wneud y diwrnod yn un llwyddiannus a llawn hwyl tymhorol.

## Boreau Coffi

Cynhaliwyd dau Fore Coffi yn y Fictoria yn ystod mis Rhagfyr. Cynhaliwyd y naill er budd y Gymdeithas Warchod Cathod ddydd Sadwrn, 8 Rhagfyr, a'r llall er budd Ysgol Feithrin Y Borth, ddydd Mercher, 12 Rhagfyr. Diolch i Margaret a Glynne a staff y Fictoria am eu cymorth a'u lletygarwch.

## Cyngerdd

Nos Sadwrn, 8 Rhagfyr, ar ddiwedd diwrnod neilltuol o brysur, cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig gan Gôr Meibion Powys yn Neuadd Gymunedol Y Borth. Cynhwysodd y rhaglen ddatganiad piano byr gan Mr Michael James. Trefnwyd y cyngerdd gan Y Parchg Ddr. David Williams a Mrs Rosa Davies ar ran y Lleng Brydeinig.

## Eglwys Sant Mathew

Cafwyd nifer dda o ymwelwyr a phlwyfolion yng ngwasanaethau'r Wyl yn Eglwys Sant Mathew, a llawer yn mynychu'r Gwasanaeth o Garolau yng ngolau canhwyllau, brynhawn Noswyl y Nadolig. Dydd Sul, 16 Rhagfyr, yn lle'r bregeth arferol, perfformiwyd Drama'r Geni gan blant ifanc yr Ysgol Sul: diolchir yn gynnes i Joy Cook, eu hathrawes, ac i'r plant am eu cyfraniad i ddathliadau'r Wyl.



Isaac, Megan, Jonah, Corhys, Eleanor, Hattie, Hannah, Ffion, Anna, Erin, Dion, Sam ac Andrew yn Nrama'r Geni yn Eglwys Sant Mathew.

Gofalwyd am wasanaethau'r Nadolig gan y Parchg Ronald Williams a'r Parch. Ddr. David Williams. Yr organydd ym mhob gwasanaeth ond un oedd Michael James; yr oeddwn yn ffodus iawn, ddydd Sul, 30 Rhagfyr (a Michael yn brysur yn Eglwys-fach) i gael, fel cyfeilyddes, Mrs Helen Naylor, merch Y Parchg a Mrs Ronald Williams a thelynores ddawnus.

## Lawnsio

Prynhawn Sadwrn, 8ed o Ragfyr, yn Oriel Tir a Môr, bu John Hefin yn brysur yn llofnodi ei lyfr *Grand Slam*, sef hanes cefndir gwneud y ffilm anfarwol dri deg o flynyddoedd yn ôl, a chronicl o atgofion yr actorion a phawb oedd wedi bod ynglŷn â hi, ynghyd â thoreth o luniau yn dod a'r cyfan yn fyw i'r cof unwaith yn rhagor. Mae gwerthiant y llyfr wedi bod yn llwyddiant aruthrol, ac ail argraffiad wedi bod yn barod. Llongyfarchiadau mawr John ,- gobeithio bod mwy i ddod.



John yn llofnodi cyfrol Nansi Hayes

## Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod SYM Y Borth yn y Neuadd Gymunedol nos Fercher, 5 Rhagfyr. Y Cadeirydd oedd Margaret Griffiths. Noson grefft oedd ar y rhaglen ac, yn addas i'r tymor, daeth Patricia Storr a'i merch i ddangos sut i wneud amrywiaeth o addurniadau Nadolig allan o bapur lliw. Aeth pawb adref gyda stoc o gardiau, angylion, coed Nadolig a ffigyrau Sion Corn. Llongyfarchiadau i Margaret Griffiths sydd wedi dod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol SYM Ffederasiwn Ceredigion.

## Anrhydeddau Y Bad Achub

Llongyfarchiadau i Gill Parry, Heol Rhydygarreg, sydd wedi cael ei hanrhydeddu gan yr RNLI gyda theitl Llywodraethwraig Anrhydeddus am Oes, mewn cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth hir fel Ysgrifennydd i'r RNLI yn Y Borth. Hefyd i Elizabeth Evans, Moorlands, sydd wedi cael ei gwobrwyo a Bathodyn Efydd yr RNLI am wasanaethau i gangen RNLI Y Borth.

## Gorsaf Bad Achub Y Borth

Da yw gweld bod Gorsaf newydd ysblennydd yr RNLI a Gwylwyr y Glannau yn Y Borth ar agor ac yn llawn weithredol. Cynhelir agoriad swyddogol yn

ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Marwolaeth

Cydymdeimlir yn gywir â Mrs. Gwenda Williams, Ton Pentre, y Stryd Fawr, a'i gŵr, y Parchedig Ifan Williams, ar farwolaeth brawd Mrs.Williams ganol Rhagfyr. Hefyd ag Elin Hefin, Ynyswen, a'r teulu, ar golli ewythr hoffus. Bu farw Mr. Geraint Williams yn Ysbyty Bron-glais wedi cyfnod yn byw yng Nghartref Hafan y Waun, a chyn hynny ym Mhlas Cwmcynfelyn, lle cafodd ofal caredig yn y ddau le.

Bu gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei fywyd ar aelwyd Ynyswen Ddydd Sadwrn, 22ain o Ragfyr, ac wedyn yn Amlosgfa Aberystwyth, lle y ffarweliwyd ag ef gan ei deulu, ffrindiau a chynrychiolwyr o'r ddau Gartref. Darllenwyd o'r Efengyl yn ôl Ioan gan Siw Hughes, ffrind i'r teulu, a thalwyd teyrnged twymgalon iddo gan John Hefin ar ran y teulu. Roedd y ddau wasanaeth yng ngofal y Parchedig T.Evan Morgan, Gweinidog Salem, Canton, Caerdydd, a'r Organydd oedd Eurgain Rowlands.

### Y Gerlan

Cafwyd gwasanaeth arbennig o fendithiol Fore'r Nadolig, gyda'r datganiadau ar yr organ, y carolau a'r gosodiadau hyfryd o flodau yn ychwanegu at naws yr Ŵyl. Yr organydd oedd Eurgain Rowlands, a rhoddwyd y blodau gan Elin Hefin er cof am ei hewythr. Roedd y gwasanaeth yn ngofal Y Parchg Richard Lewis, a gweinyddwyd y Cymundeb ganddo i'r gynulleidfa niferus, oedd wedi cael ei ychwanegu ati gan rai o blant yr Eglwys adref ar eu gwyliau, a chan ymwelwyr oedd yn aros gyda'i teuluoedd dros yr Ŵyl.

### Llwyddiant ar y delyn

Llongyfarchiadau gwresog i Mared Emyr, 5 Ffordd Clarach, ar gael ei gwahodd eleni eto i ymuno â Cherddorfa Genedlaethol Plant Prydain dan 11 oed. Tipyn o orchest! Bydd yn mynychu ymarferion misol gydag aelodau'r cerddorfeydd 7 – 15 oed o dde Cymru a de Orllewin Lloegr yn Weston-super-mare ac yna'r cwrs wythnos blynyddol i aelodau'r gerddorfa dan 11 ger Pontefract, Swydd Efrog ym mis Gorffennaf. Mae Mared yn ddisgybl i Mrs Eleri Turner, Bow Street.

## Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las



Capten ac Is-gapten 2008 yr Adran Iau, Steffan Richards (Y Borth) a Matthew Evans (Capel Bangor). Dymuniadau gorau am flwyddyn lwyddiannus i'r ddau.

Hoffai'r Adran Iau ddiolch i'r cyn-gapten, Gareth Davies (Penrhyn-coch) am ei holl waith caled yn ystod 2007. Gareth yw'r Capten Iau gyntaf, dros y 10 mlynedd diwethaf i arwain tim Y Borth i ennill y gemau "Quadrangular" yn erbyn Llandrindod, Kington ac Aberystwyth – da iawn Gareth.

Yn yr wythnosau cyn y Nadolig cynhaliwyd 6 cystadleuaeth i'r Adran Iau.

Treialon Nadolig 1 - Cystadleuaeth Medal
1af Zach Galliford (Y Borth) 75:6:69, 2il Matthew Evans (Capel Bangor) 75:5:70 (9 cefn), 3ydd Erwan Izri (Penrhyn-coch) 96:26:70

Treialon Nadolig 2 – Cystadleuaeth Stableford
1af Steffan Richards (Y Borth) 42 pwynt, 2il Tom Slater (Y Borth) 40 pwynt, 3ydd Zach Galliford (Y Borth) 39 pwynt

Treialon Nadolig 3 – Cystadleuaeth Bogey
1af Jac Morris (Y Borth) +7, 2il Erwan Izri (Penrhyn-coch) +3, 3ydd Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) +2

Treialon Nadolig 4 – Cystadleuaeth Medal
1af Luke Williams (Bow Street) 95:26:69, 2il Matthew Evans (Capel Bangor) 76:5:71, 3ydd Steffan Richards (Y Borth) 82:10:72

Treialon Nadolig 5 – Cystadleuaeth Stableford
1af Ben Slater (Y Borth) 42 pwynt, 2il Steffan Richards (Y Borth) 40 pwynt, 3ydd Zach Galliford (Y Borth) 37 pwynt

Treialon Nadolig 6 – Cystadleuaeth Bogey
1af Zach Galliford (Y Borth) +3 (9 cefn), 2il Tom Slater (Y Borth) +3, 3ydd Gethin Morgan (Pisgah) Cydradd

Oherwydd cynnydd yn y nifer o aelodau Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las cynhaliwyd 2 ginio Nadolig eleni, un i'r chwaraewyr sy'n chwarae ar y prif gwrs a'r naill i chwaraewyr a ddechreuodd ar y cwrs ymarfer yn ystod 2007. Mynychwyd y nosweithi gan dros 120 o chwaraewyr, rhieni, cefnogwyr a noddwyr.

Yn ystod y cinio i chwaraewyr y prif gwrs, gwobrwywyd enillwyr y Treialon Nadolig a hefyd y chwaraewr a ddangosodd y gwelliant mwyaf wrth ddod o'r cwrs ymarfer i'r prif gwrs, sef Ben Slater (Y Borth).

Prif wobr y noson oedd Cwpan Coffa Pat Clare 2007, a'r enillydd eleni oedd yr Is-gapten Matthew Evans (Capel Bangor).

Hoffai'r Adran Iau achub y cyfle i ddiolch i'w holl noddwyr yn 2007, heb eich cefnogaeth byddai'n anodd parhau. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Y TINCER

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# BOW STREET

## Suliau Chwefror

Gwasanaethau Y Garn
10 a 5
www.capelygarn.org
3 Rhidian Griffiths
10 Tudor Davies Bugail
17 Bugail
24 G. Madoc Jones

Noddfa
3 10.00 Gweinidog
10 2.00 Gweinidog
17 10.00 Uno yn y Garn
24 2.00 Gweinidog (Cymundeb)

## Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd Hapus i Mair Lewis, 40 Maesceiro, sy'n dathlu pen blwydd arbennig ar 25ain Ionawr. Bydd Mair yn barod i gasglu y bys pas nawr!

## Dyweddio

Pleser mawr gan Alun a Louisa Phillips, 29 Maes Ceiro, yw cyhoeddi dyweddïad eu mab Rhydian Prys a Megan Alyssa, Cleve, Awstralia, merch Peter a Diann DuBois, ar ddydd Nadolig. Mae Rhydian a Megan yn ôl ym Mow Street tan ddiwedd Ionawr ac felly roedd Megan wrth ei bodd i gael modrwy o Aur Clogau o Aberystwyth. Dymunwn bob bendith i`r ddau.

## Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus yn 21 oed i Nerys Owen, Gerddi Gleision, a phob dymuniad i'r dyfodol oddi wrth Mam, Dad a William.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mair, Gareth, Lowri a Rhys Lewis, Brynawel, Bow Street, ar golli mam a mam-gu, sef Mrs Hilda Daniel, Aberystwyth ychydig cyn y Nadolig.

## Capel y Garn

Bu mis y Nadolig yn fis prysur a bywiog yng Nghapel y Garn. Cafwyd oedfa addas iawn i ddechrau tymor yr adfent fore Sul, Rhagfyr y 9fed, pan ddaeth dau deulu i'r oedfa i gyflwyno dwy ferch fach i'w bedyddio, sef Lois Medi, merch Chris a Carwen Jones, a Ffion Mari, merch Andrew a Manon Curley. Y Gweinidog, y Parchg Wyn Morris, oedd yn gweinyddu.

Ar y 12fed o Ragfyr tro Cymdeithas Os Mêts oedd hi. Aeth criw o'r bobl ifainc i lawr i Theatr Felin-fach i weld y pantomeim blynyddol, 'Yr Hwnt tu Hwnt i'r Hwnti Twmps!' Cafwyd noson lawn mwynhad. Diolch i Dewi Hughes am wneud y trefniadau.

Brynhawn Sadwrn, Rhagfyr 15fed, cynhaliwyd Parti Nadolig plant ac ieuenctid y capel yn festri'r Garn. Yn dilyn te blasus cafodd y plant hwyl fawr yn chwarae'r gêmau roedd Joyce Bowen wedi eu paratoi ar eu cyfer. Galwodd Siôn Corn draw hefyd gyda llond sach o anrhegion. Diolch i Janet Roberts am drefnu'r cyfan ac i Gwynant Evans am helpu Santa.

Fore Sul, Rhagfyr 16eg cynhaliwyd Oedfa Nadolig i'r Ofalaeth yn y Garn. Perfformiodd y plant lleiaf ddrama'r Bugail Blin dan gyfarwyddyd Gweneira Williams, ac fe gafwyd darlleniadau, gweddïau, caneuon, a sgets gan y merched uwchradd a oedd wedi eu hyfforddi gan Alun Jones. Dangosodd y Gweinidog Stori'r Geni ar Powerpoint, ac fe ganodd y Côr Unedig o aelodau'r Garn a'r Noddfa, dan arweiniad Alan Wynne Jones, nifer o garolau. Brenda Williams oedd yr organydd. Hyfryd oedd gweld cynifer o blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn gwneud eu gwaith mor raenus, a chynifer o bobl yn y gynulleidfa i gyfranogi o'r addoliad.

Nos Wener, Rhagfyr 21ain, bu'r Gymdeithas Lenyddol yn cyfarfod. Mary Thomas, Dôlgelynnen oedd y wraig wâdd. Treuliwyd noson ddiddorol a difyr yn ei chwmni yn clywed am ei gwaith yn olrhain achau ei thylwyth, ac yn trafod perthnasau. Gaenor Hall, Cadeirydd y Gymdeithas, oedd yn llywyddu.

Fore Sul, Rhagfyr 23ain, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig ar y cyd i'r Garn a'r Noddfa yng Nghapel y Garn. Alun Jones oedd wedi trefnu'r darlleniadau ac Alan Wynne Jones oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth. Cymerodd nifer fawr o aelodau'r ddau gapel ran yn yr addoliad. Llio Penri oedd wrth yr organ. Cafwyd cyfeiliant hefyd gan grŵp o offerynwyr pres ifainc, sef Iwan Williams, Rhun Penri ac Iestyn Evans. Methodd Gwern Penri â bod yn bresennol oherwydd salwch.

Noswyl Nadolig mynychodd aelodau o'r Garn yr oedfa i groesawu'r Nadolig a gynhaliwyd yng Nghapel y Noddfa dan arweiniad y gweinidog, y Parchg Richard Lewis.

Fore dydd Nadolig am naw o'r gloch cafwyd Oedfa Gymun yn y Garn dan arweiniad y Parchg Wyn Morris. Braf oedd gweld rhai o blant yr eglwys a oedd gartref dros y gwyliau, ynghyd ag aelodau o eglwysi eraill yr ofalaeth ac o Gapel Noddfa yn ymuno yn y dathlu.

Ganol nos y 31ain o Ragfyr cynhaliwyd gwylnos i groesawu'r Flwyddyn Newydd ac unwaith eto braf oedd gweld aelodau o gapeli eraill yr ofalaeth ac o gapel Noddfa wedi troi i mewn. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl a myfyrdodau gan y Bugail, Eddie Jenkins, Bryn Lloyd, Marian Beech Hughes, Gweneira Williams, a'r Parchedigion W J Edwards a Richard Lewis. Vera Lloyd oedd wrth yr organ.

Brynhawn Sul, Ionawr 7fed, cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghartref Tregerddan dan ofal Alan Wynne Jones. Canwyd carolau gan y Côr Unedig, gyda Llio Penri yn cyfeilio, darllenodd Gwenda Edwards a Hywel Roberts, a rhoddodd Alan Wynne Jones anerchiad ar yr Hen Galan.

Dalier sylw: Mae dau focs yn y festri. Bydd un ohonyn nhw yno tan ddiwedd mis Ionawr i dderbyn cardiau Nadolig i'w hailgylchu er budd Coed Cadw. Ar gyfer casglu stampiau i Oxfam mae'r llall.



Ymweliad Siôn Corn â pharti Nadolig ysgol Sul y Garn



Gwasanaeth Nadolig plant ysgol Sul y Garn

## Cerddwyr Rhydypennau

Tair taith gafodd y grŵp cerddwyr ym mis Rhagfyr. Er mor ddifyr a phleserus yw'r teithiau, cytunwyd i aros gartref ddydd Nadolig! Ar Ragfyr 4ydd cafwyd taith o gwmpas Llanilar; y Prom a Chonsti oedd y llwybr ar yr 11fed; a Mynydd Gorddu aBont-goch ar y 18fed o Ragfyr. Diolch o galon i Rees Thomas am ei holl waith yn paratoi ac yn arwain y teithiau.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r cerddwyr. Y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw cyrraedd Neuadd Rhydypennau erbyn 1.00 yn brydlon ar brynhawn dydd Mawrth. Bydd nifer o bobl radlon yno i'ch croesawu i'r cwmni. Cofiwch ddod ag esgidiau cerdded a dillad addas.

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd Ffair Nadolig y capel yn Neuadd Rhydypennau ar ddiwedd mis Tachwedd. Agorwyd y ffair gan Gwenda ac Erddyn James a chyflwynwyd blodau iddynt gan un o blant yr Ysgol Sul sef, Owen Drakely. Diolch i bawb


Bedydd Lois Medi


Bedydd Ffion Mari

a gyfranodd at wneud y ffair yn llwyddiant eto eleni.

Yn addas iawn cynhaliwyd ein cyfarfod mis Rhagfyr yn Bethlem, Llandre. Margaret Rees oedd yn gyfrifol am y rhannau arweiniol a chyfeilwyd gan Kathleen Lewis. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau a chlywsom amrywiol hanesion plentyndod, traddodiadau, storiau a darlleniadau yn ymwneud â'r Nadolig. Paratowyd y te gan aelodau ardal Dolau a'r ffermydd. Roedd Siôn Corn wedi bod o gwmpas gan fod anrheg fach i bob un oedd yn bresennol. Hefyd, roedd Shân Hayward wedi dod a chynnyrch "Masnach Deg" o Siop Oxfam i'w gwerthu a rhoddodd amlinelliad byr o hanes paratoi y cynnyrch oedd ar gael.

Gan fod y flwyddyn yn prysur tynnu tua'i therfyn cafwyd crynodeb o'r sefyllfa ariannol gan Vera Lloyd.

Braf oedd cael cwmni rhai o'r plant ar eu ffordd o'r ysgol.

Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan Ann Jones ar ddechrau ein cyfarfod mis Ionawr 2008. Vera Lloyd oedd yn gyfrifol am y rhannau arweinol a pharatowyd y te gan wragedd ardal Maes Ceiro. Testun sgwrs Gareth William Jones, ein siaradwr gwadd, oedd "Tair Cymraes amlwg ym myd llenyddiaeth plant" sef, Moelona, Elizabeth Watkin Jones ac Emily Huws. Treuliwyd orig ddifir yng nghwmni Teulu Bach Nantoer, Luned Bengoch a Babi Gwyrdd. Cafwyd amrywiol ddyfyniadau a chymharu sefyllfaoedd o'r llyfrau a hyn i gyd mewn ffordd ffraeth a hwyliog. Roedd pawb yn falch o gael eu hatgoffa o'r storiau ac wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Mis nesaf, ar Chwefror 6ed, edrychwn ymlaen at gael hanes eu hymweliad â Phatagonia gan Gwenda a W J Edwards.

### Ymweld â ras

Llongyfarchiadau i Gareth William Jones, Hafle, ar ennill tocyn i ymweld â y Grand National Cymreig yng Nghasgwent.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDIOL

Blwyddyn newydd dda. Dymuniadau gorau i bawb na fu yn rhy dda dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd - mae tipyn o annwyd a ffliw o gwmpas.

### Priodas

Dymuniadau gorau i Menna a Dylan Stephens ar eu priodas wythnos cyn y Nadolig. Merch John a Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, yw Menna ac mae Dylan yn frodor o Langeitho. Mae Menna wedi bod yn weithgar iawn yn yr ardal, yn aelod gweithgar o Glwb Ffermwyr Ifanc Trisant ac yn aelod yng Nghapel Llwyn-y-groes lle y bu yn chwarae'r organ am lawer blwyddyn. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd -Cefn Cae, Pen-uwch.

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd y parti Nadolig blynyddol eleni eto er mai siomedig iawn oedd y nifer a ddaeth ar y noson. Mwynhawyd pryd arbennig o fwyd wedi ei baratoi gan yr aelodau, canwyd nifer o garolau gyda Jean Cock ar y piano ac yna daeth Siôn Corn ag anrhegion i'r plant. Tynnwyd y raffl a diolchodd y Llywydd i bawb am eu cefnogaeth eleni eto. Diolch i John Marshall ac i Amanda ac Ann Ellis am y trefniadau.

### Canu Carolau

Nos Lun cyn y Nadolig aeth John a Elizabeth Lewis, Beti a Nerys Daniel, Norma Stephens,Mike Maloney, Dei Charles Evans, John Marshall a Christine Pasoewicz o amgylch yr ardal i ganu carolau ar ran Urdd y Benywod. Mi 'roedd yn noson oer iawn ond mi 'roedd y croeso ym mhob tŷ yn wresog iawn. Llwyddwyd i gasglu £300 tuag at Glwb Gateway i'r anabl yn Aberystwyth. Diolch o galon am y cyfraniadau ac am y croeso arbennig a gawsom eleni.

### Croeso

Croeso cynnes i'r Cwm i ddeiliaid newydd Penffrwd

# LLANDRE

### Merched y Wawr Genau'r-glyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr yn Ysgoldy Bethlehem. Cydymdeimlodd y Llywydd â Mrs Nest Davies a oedd newydd golli ei mab Rhys yr wythnos flaenorol. Mrs Janet Jones, Llwynglas, oedd y wraig wadd yn sôn am wahanol ffyrdd o ddefnyddio twrci sydd dros ben o'r cinio Nadolig, a nifer o bwdinau addas i'w bwyta dros yr Ŵyl. Cafwyd cyfle i brofi'r danteithion gyda phaned a diolch hefyd i Mrs Regina Jones, un o'r aelodau, am baratoi mins peis i bawb a Mrs Elina Davies am osod y byrddau. Cafwyd sgwrs gartrefol dros y baned a dymunwyd Nadolig Llawen i'n cyd-aelodau.

### Damwain

Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Megan Jones, Taigwynion ar ôl damwain car ger Maes Newydd yr wythnos diwethaf.

### Croeso adre

Croeso adre i Hugh a Barbara Davies, Sibrwd y Coed ar ôl cyfnod yn Awstralia.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Bethan Hanley, Sunmead, ar ddod yn 'Brif Cub' yn Adran Y Borth.

### Llyfr

Mae 3 chopi o lyfr Randall Enoch yn olrhain hanes Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn ar ôl. Os hoffech un cysylltwch â Betty Williams ar 828335

*** Gweler hefyd tudalen 9**

*Blodau i bob achlysur*
Blodau'r Bedol
*Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur*
Donald Morgan
*Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB*
*Ffôn 01974 202233*
*Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer*

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

# PEN-LLWYN

## Capel Pen-llwyn

Fel arfer mae gwasanaeth y plant yn tynnu cynulleidfa dda, ac nid oedd Sul cyn y Nadolig yn eithriad. Cafwyd fwynhâd a bendith yn gwrando ar y plant a'u hathrawon, yn darllen, canu carolau a phortreadu y sgets "Beth Petau?"

Chwaraewyd yr organ gan Delyth Davies, a sgwrsiodd Mr Martin Davies efo'r plant wedi iddynt gwbwlhau eu gwaith yn ardderchog iawn.

Cymerwyd rhan gan: Tomos Watson, Ieuan Evans, Iestyn Watson, Rhian James, Manon Davies, Kate Williams, Tomos Evans, Elyse Howells, Haf Evans, Ffion Williams, Nannon Jones, Alaw Evans, Heulwen Lewis, Delyth Davies ac Aeronwy Lewis.

## Llongyfarchiadau

Hyfryd yw dweud ei bod yn dymor y llongyfarchion yma ym Mhen-llwyn yn ddiweddar. Dymunwn i'r canlynol ddymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

I Geraint Peter Williams, Cefnllidiart, a Mari Meleri Jones, Blaenycoed, ger Caerfyrddin, ar eu priodas yn y Swyddfa Gofrestru Aberystwyth ar Rhagfyr 17eg. Maent wedi ymgartrefu yn Nantfach, a dymunwn iddynt briodas dda.

I Melanie Evans ( Defnydd Melanie Exchange ) a Daniel Hughes a briodwyd yn eglwys Penrhyn-coch ar Ragfyr 15ed. Cafwyd y wledd brodas yn Neuadd Bentref Pen-llwyn, a'r mis mêl yng Ngweriniaeth Dominica. Priodas dda iddynt hwythau.

I Christina Thomas, Llwynteg, cyfarchion pen blwydd hwyr ar gyrraedd ei deunaw oed. Hwyl fawr i ti Christina.

I Ieuan a Glenys Griffith, Pennant, ar ddathlu eu priodas aur ar 28ain o Ragfyr. Ymlaen yn awr i'r deiamwnt!

I Mam-gu a Dad-cu, sef Vrina Williams, Cefnllidiart, a Fred Williams, ar enedigaeth eu wyres fach newydd Ella, merch William a Danielle.

I Steffan Davies, Ceunant, ar basio ei brawf gyrru. Da iawn, ond cymer ofal Steffan!

## Actorion

Bu Mr a Mrs Hogger, Plas Melindwr, yn actio yng Nghanolfan y Celfyddydau cyn y Nadolig, yn y ddrama "Scrooge". Chwaraewyd y brif ran "Scrooge" gan Richard Hogger, ac Ysbryd y Nadolig oedd rhan Barbara Hogger. Bu y ddrama yn llwyddiant mawr, ac yn werth ei gweld.

## Ar y Radio


Tybed faint ohonoch a glywodd lais Mrs Dorothy Roberts ac Alma ei merch ar raglen 'Hywel a Nia' cyn y Nadolig? Roedd Hywel Gwynfryn yn ysbyty Bron-glais, yn cael cyfweliadau gan y cleifion allanol. Mae Dol yn wreiddiol o Ffestiniog, ac yn ei sgwrs efo Hywel danfonodd gyfarchion i'w chwaer yng nghyfraith a oedd wedi colli ei gŵr yn ddiweddar.

## Y Fedal Gee

Clywsom wrth fynd i'r wasg fod Mr a Mrs Martin Davies Maencrannog yn cael eu gwobrwyo eu dau, gyda'r Fedal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul dros amser maith. Byddant yn cael eu hanrhydeddu yn y Tymbl ar 25ain o Ionawr. Cewch wybod rhagor o'r hanes y tro nesaf.

## Calennig

Parhau wnaeth y traddodiad o ganu calennig eto y flwyddyn hon, a braf oedd croesawu nifer fechan o blant ar fore Calan, yn canu wrth rai o ddrysau ardal Pen-llwyn.Un llun ddaeth i law, ond bu y plant canlynol yn canu ar Ionawr 1af, sef Alaw a Llŷr Evans, Shaun ac Amy Dryburgh, Rhian James, Tomos a Iestyn Watson, a Ieuan Tomos a Haf Evans.



Alaw a Llyr Evans

## Prentis Newydd

Mae Richard Howells 'Tomos' wedi gadael ei swydd fel postmon ar ôl deuddeng mlynedd yn y gwaith, ac wedi dechrau ei brentisiaeth fel trydanydd gydag Edryd Jenkins ar 7fed Ionawr. Pob hwyl a llwyddiant iddo yn ei yrfa newydd.

## Yn yr Ysbyty

Cafodd Mr Emrys Evans, Brynsiriol, ei gymryd yn ôl i'r ysbyty wedi y Nadolig. Cofion cynnes ato, a gobeithio ei fod yn teimlo yn well erbyn hyn.

## Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd noson goffi yn Neuadd yr Eglwys ar nos Wener, 7 Rhagfyr 2007 am 7-8 o'r gloch. I ddilyn cafwyd adloniant hyfryd gan Barti'r Gannwyll o ardal Llanybydder. Cyflwynwyd y Parti gan y Parchg John Livingstone. Mi dynnwyd y raffl fawr hanner ffordd trwy'r adloniant. Diolchwyd i'r parti ac i bawb fu'n cynorthwyo i wneud y noson yn llwyddiannus gan y Parchg John Livingstone.

Daeth cynulleidfa luosog ynghyd i fwynhau Gwasanaeth o naw llith a charolau ar nos Sul, 16 Rhagfyr 2007. Cychwynwyd gyda gweddi gan y Parchg John Livingstone. Darllenwyd y llithiau gan yr aelodau canlynol: Iris Richards, Llinos Jones, Heather Evans, Lowri Jones, Margaretta Jones, Gwynfor Jones, Mair Stanleigh, Nancy Evans a'r Parch. John Livingstone.

Pleser hyfryd oedd cael eitemau gan yr unawdydd poblogaidd Dafydd Jones, Hendre Wen, Tynygraig, Ystrad Meurig.

Yr organydd oedd Mr Maldwyn James a therfynwyd y gwasanaeth gyda gweddi a bendith.

Gwahoddwyd pawb i'r neuadd ar ôl y gwasanaeth i fwynhau lluniaeth ysgafn.

Dathlwyd Cymun Bendigaid am 9.30 y bore ac mi roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchg. John Livingstone. Yn ei gynorthwyo mi roedd Lona Jones. Cafwyd pregeth bwrpasol iawn ganddi. Cyfeiliwyd gan Mrs Jean Cock.



Mr a Mrs Hughes, Exchange Stores, Capel Bangor



Geraint a Mari Williams ddydd eu priodas

## Gwaith Trydanol

Gwnaed y gwaith trydan ar yr Eglwys ychydig cyn y Nadolig gan gwmni Edryd Jenkins, er mwyn cydymffurfio a'r gofynion presennol

Mantais fawr i'r Eglwys yw cael system sain newydd. Bydd hyn yn sicr yn werthfawr ac rydym oll yn gwerthfawrogi y gwaith.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau o fewn y gymuned. Dylid anfon ceisiadau ynghyd a copi o'r fantolen diweddaraf at y clerc Meinir Evans, 43 Maes Afallen, Bow Street, SY24 5BL erbyn dydd Sadwrn 1af Fawrth 2008 fan bellaf.

# Mr. Elfyn Thomas, Llandre

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth Mr Elfyn Thomas, Sŵn y Nant, Lôn Glanfrêd, Llandre. Nid oedd wedi bod yn rhy dda ei iechyd ers peth amser a bu farw`n dawel ac urddasol yn Ysbyty Bronglais ddiwedd y prynhawn dydd Sul 4 Tachwedd. Yr oedd yn 83 mlwydd oed.

Fel Mr Thomas y Banc y câi ei adnabod yn gyffredinol gan gylch eang o gyfeillion a chydnabod. Hanai o ardal Cwmllynfell yn wreiddiol, yno y cafodd ei eni ym mis Hydref 1924. Yn ddiweddarach symudodd y teulu i ardal Llandysul ac oddi yno yr aeth i ymuno â Banc y National Westminster (National and Provincial yr adeg hynny) yn Ninbych y Pysgod pan ddaeth yn amser iddo ddechrau gweithio. A gyda`r Banc y buodd o gydol ei yrfa broffesiynol gan wasanaethu ar hyd a lled De Cymru ac yma yng Ngheredigion yn Nhregaron, Aberteifi ac Aberystwyth yn eu tro. Cafodd yrfa broffesiynol lwyddiannus iawn, esgynnodd drwy`r rhengoedd yn gyflym iawn a bu`n rheolwr uchel iawn ei barch am flynyddoedd lawer. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd yn y Llynges ac roedd ganddo atgofion byw iawn am y profiadau ar y teithiau i Rwsia, yr oerni yn arbennig.

Bu`n llwyddiannus a hynod hapus a bodlon ei fyd ar lefel bersonol hefyd gan iddo gael ym Margaret gymar oes ac enaid hoff cytûn a fu`n gymaint o gefn ac o gysur iddo ym mhob peth. Priododd y ddau ym 1953 ac yn y man fe ddaeth y merched, Alison a Kathryn, yn eu tro i gyfoethogi`r aelwyd. Yn eu tro daeth yn amser i`r merched sefydlu eu teuluoedd eu hunain ac mae`n sicr bod yr wyrion a`r wyresau a`r genhedlaeth nesaf wedyn wedi rhoi llawer iawn o gysur iddo hefyd. Ac fe ddaeth cysur mawr iddo o gyfeiriad arall hefyd, un braidd yn anisgwyl efallai, sef ei ddiddordeb mawr mewn cysylltu â phobl a chadw mewn cysylltiad â phobl trwy gyfrwng cyswllt radio. Drwy`r cyfrwng hwn yr oedd mewn cysylltiad cyson â chyfeillion ar hyd a lled y byd.

Yn dilyn cael ei apwyntio`n Reolwr ar Gangen Aberystwyth o Fanc y National Westminster fe ymsefydlodd y teulu yn Llandre ac yno yn Lon Glanffred, yn Sunmead i ddechrau ac yna yn Sŵn y Nant, y treuliodd weddill ei ddyddiau yn ddedwydd iawn ei fyd. Nid oedd wei bod yn rhy dda ei iechyd ers peth amser ond fe ddaliodd ati`n ddewr a thawel a di rwgnach hyd y diwedd a Maegaret wrth ei ochr yn gymorth ac yn gysur amhrisiadwy iddo.

Yn ôl ei ddymuniad cynhaliwyd ei wasanaeth angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Sadwrn 10 Rhagfyr ar ffurf gwasanaeth preifat i`r teulu a chymdogion a chyfeillion agos yn unig. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedigion Richard H Lewis a T J Irfon Evans. Wrth ddathlu ei fywyd a diolch am y bywyd hwnnw talodd y Parchg. Richard Lewis deyrnged gyfoethog iawn iddo gan dynnu`n helaeth ar ei adnabyddiaeth bersonol ohono, adnabyddiaeth oedd yn ymestyn yn ôl dros gyfnod o ddeg mlynedd ar hugain, sef y cyfnod yr oeddent ill dau wedi ei dreulio yng Ngogledd Ceredigion. Cyfeiriodd ato fel cyfaill cywir, fel cymeriad annwyl, bonheddig, tawel a didwyll oedd bob amser yn ddifyr ei sgwrs ac yn barod ei gymwynas a`i gyngor, fel aelod ffyddlon ac fel Diacon parchus iawn yng Nghapel Noddfa, Bow Street, fel Trysorydd Eglwysi Annibynnol Gogledd Ceredigion am flynyddoedd, ac fel un a oedd wedi cyfrannu`n helaeth iawn tuag at gynnal y gymdeithas ar lefel broffesiynnol yn ogystal ag ar lefelau personol a chymdeithasol ym mhob un o`r ardaloedd hynny yr oedd wedi byw a gwasanaethu ynddynt yn ystod ei gyfnod gyda`r Banc. Bu`n drysorydd gwirfoddol i aml i fudiad a chymdeithas ar hyd y blynyddoedd gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol adeg ei hymweliad ag Aberteifi ym 1976. Cyfeiriodd hefyd at y ddawn reddfol honno oedd ganddo i gyfathrebu â phobl, dawn oedd yn sicr yn deillio o`i ddiddordeb mewn pobl, at ei ddiddordeb mewn ffeithiau, gwybodaeth, newyddion a materion cyfoes ac at y cof rhyfeddol oedd ganddo a`i allu i gofio ffeithiau a hanesion.

# LAWNSIO GRAND SLAM

**John Hefin Grand Slam : Behind the *Scenes of the Classic Film* Y Lolfa £8.95.**

Yn ddiweddar cyhoeddwyd llyfr newydd sy'n datgelu'r cyfrinachau a'r cefndir y tu cefn i un o glasuron y byd darlledu yng Nghymru.

Yn ôl y cyn chwaraewr rhyngwladol Gerald Davies, Grand Slam yw'r ffilm fwyaf doniol am rygbi erioed a fu mam Gareth Edwards byth yn rhyw hoff o weld ei mab yn mynd i Baris ar ôl gwylio'r gomedi!

Mae bellach yn union 30 mlynedd ers ffilmio'r gomedi honno, sy'n dilyn pedwar o gefnogwyr y bêl hirgrwn ar daith i Baris ym 1997. Nawr, am y tro cyntaf, mae atgofion di-flewyn-ar-dafod y criw a'r cast wedi'u cyhoeddi yn *Grand Slam : Behind the Scenes of the Classic Film.*

Ymhlith y rheiny sy'n cyfrannu at y casgliad o straeon mae'r actorion Windsor Davies, Sharon Morgan a Dewi Pws. Yno hefyd y mae cyfraniad y gŵr wnaeth gyfarwyddo'r ffilm nôl ym 1977 a golygydd y llyfr John Hefin, a fagwyd yn Aberystwyth ac sydd bellach yn byw yn Y Borth.

"Roedd pob math o bwysau arnom ni," meddai John wrth fwrw golwg yn ôl ar y cyfnod cynhyrchu. "Roedd y gyllideb yn gyfyng a dweud y lleiaf ac fe benderfynodd mân weinyddwyr y BBC mai Twickenham, nid Paris, fyddai yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad - llai o deithio, a rhatach o lawer. Fe wnaethon ni ddadlau'n hachos ac ennill y frwydr honno – fyddai'r ffilm ddim yr un peth heb y je ne sais quoi yno, chwedl Maldwyn.

"Eto oherwydd y gyllideb dynn, am dridiau yn unig roeddem ni'n cael ffilmio ym Mharis, felly bu'n rhaid saethu'r golygfeydd dan do (er enghraifft y clwb nos, y gwesty a.a.) nid yn Ffrainc ond yng Nghaerdydd – yn 376 Newport Road, fel mae'n digwydd, sef cartref clwb y BBC."

Mae mwynhau, meddwi a mercheta yn rhan annatod o'r ffilm. Ymhlith y golygfeydd mwyaf cofiadwy y mae'r olygfa




garu rhwng Dewi Pws gydag, Odette (Sharon Morgan). Roedd yr holl beth yn ormod i fam Dewi Pws.

"Roedd cywilydd arni ac aeth hi ddim i'r capel am bythefnos er mwyn osogi embaras. Yn ffodus, fe sylwodd y gweinidog ar ei habsenoldeb ac aeth i'w gweld, gan ofyn pam nad oedd hi wedi bod ers pythefnos," meddai Dewi yn y llyfr.

"Fe ddywedodd y gweinidog mai Grand Slam oedd un o'r pethau mwyaf doniol iddo weld ers blynyddoedd ac y dylai fod yn falch o'i mab. Y Sul canlynol, roedd mam yn ôl yn y capel, yn holi pawb a oedden nhw di gweld 'Dewi ni' yn Grand Slam".

A hithau'n oes aur ar rygbi Cymru, uchafbwynt y ffilm fyddai buddugoliaeth y crysau cochion yn erbyn y Ffrancwyr ond nid felly y bu. Yn groes i bob disgwyl, colli fu hanes y Cymry a bu John Hefin a'r dramodydd y diweddar Gwenlyn Parry ar eu traed drwy'r nos yn ail-sgwennu'r diweddglo.

"Fe ddaeth yr ysbrydoliaeth ar doriad y wawr," meddai John. "Gydag hangovers dychrynllyd, fe aethon ni â Mog a Maldwyn a'r criw draw yn gynnar, gynnar iawn i'r Parc des Princes. Byddai wedi bod yn amhosib i orffen y ffilm ar nodyn isel ac roedd angen atgoffa'r gwyliwr, trwy ddeialog Maldwyn a Mog (a sgwennwyd ychydig oriau'n gynt) y byddai'r gêm nesa yn erbyn Ffrainc yn cael ei chwarae gartref, ar Barc yr Arfau. Ac yno, flwyddyn yn ddiweddarach, fe wnaethon ni guro'r 'froggie caci-pots".

Bellach mae 'na ail argraffiad yn bodoli, sy'n fesur o lwyddiant ysgubol y llyfr hardd hwn, sydd wedi'i ddylunio'n hyfryd. Mae'n cynnwys lluniau lliwgar o'r criw a'r cast wrth eu gwaith yn ogystal â chwis arbennig.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

Chwefror
3 Clwb Sul 10.30 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
10 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
17 2.30 Oedfa bregeth Sion Aled
24 10.30 Clwb Sul ac Oedfa bregeth Gweinidog

## Plygain

Cafwyd eglwys lawn nos Iau Rhagfyr 20 pan gynhaliwyd deunawfed plygain Penrhyn-coch yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn. Gweinyddwyd gan y Parchg John Livingstone yn cael ei gynorthwyo gan Lona Jones. Agorwyd y blygain gan Barti'r Penrhyn, ac yna canodd Marianne Jones Powell, Glenys Jenkins, Parti Eglwys Llanbadarn, Wythawd o Gôr ABC, Cantorion Aberystwyth, Sonia ac Owen o Clatter, Triawd y Frenni, Daniel Huws, Triawd Linda Griffiths, Lisa a Gwenno; Triawd Rhiannon Ifans, Trefor Pugh ac Eleri Roberts a Chantre'r Gwaelod. Cyflwynwyd y casgliad o £179.28 i'r elusen Ffagl Gobaith. Cafwyd cyfle i gymdeithasu wedyn dros swper yn Neuadd yr Eglwys.Ffilmiwyd y blygain gan Emyr Jones, Llanrhystud ac mae copi ar gael i'r sawl hoffai brynu un am £6 – gellir cysylltu â Emyr Jones (01974 202 515) gan nodi ai DVD ynteu fideo hoffech gael.

## Casglu dillad

Mae bin dillad nawr ym maes parcio Neuadd y Penrhyn yn ychwanegol i'r buniau gwydr, plastig a thuniau. Gellir gadael dillad, dillad gwely, llieniau (linen), gwregysau, teis, a bagiau llaw yno. Bydd Cyngor Ceredigion yn talu arian yn ôl y pwysau am y dillad i Neuadd y Penrhyn.

## Clwb Cinio Cymuned Penrhyn-coch

Dyddiadau nesaf y Clwb yw 23 Ionawr a 13 Chwefror. Gellir cael mwy o fanylion oddi wrth Egryn Evans 828 987

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 13eg o Ragfyr croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd, Mair Evans, yna trafodwyd y busnes arferol. Aed ymlaen wedyn i groesawu ein gwraig wadd, sef Rwth Jên, merch leol ond yn awr yn byw yn Nhal-y-bont gyda'i theulu bach. Mae wrth gwrs yn adnabyddus i bawb dros y wlad ac ar radio a theledu yn gyson fel arlunydd. Mae ei gwaith i'w weld ymhob man. Ond y noson hon gan ein bod ar drothwy y Nadolig fe ddangosodd i ni sut i wneud cardiau Nadolig allan o bob math o bapur wast. Ac i wneud y noson yn fwy diddorol byth fe gafodd pob un o'r aelodau wneud carden o waith a syniadau eu hunain. Cafwyd llawer o hwyl yn gwneud hyn. Ac ar y diwedd barnodd Rwth Jên y garden yn ei thyb hi oedd orau. Elsie Morgan oedd yr enillydd. Diolchwyd iddi gan Miriam Garratt ac yna fe gafwyd cwpanaid a mins peis i ddiweddu'r noson. Tynnwyd y raffl misol hefyd. Noson arbennig dros ben.

Carwn hefyd rhoi gwybodaeth fod yr offer a brynwyd gan Merched y Wawr y Penrhyn gyda'r arian a dderbyniwyd o Loteri y Bobl ar gael i unrhyw fudiad yn y gymuned i'w defnyddio. Cysylltwch ar hyn o bryd â Mair Evans ar (01970) 828640 os am fwy o wybodaeth beth sydd ar gael.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Dwynwen a Barry Rowlands, 1 Glan Seilo, ar eu priodas ar 2 Ionawr.

## Oedfa blant a ieuenctid unedig

Brynhawn Sul 23 Rhagfyr, daeth plant a phobl ifainc Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch at ei gilydd i gyflwyno drama'r geni. Cawsom gyfarfod â holl gymeriadau hanes y geni a'n hudo gan amrywiaeth o ddatganiadau cerddorol. Bu rhai yn canu, eraill yn canu offerynnau pres a'r delyn. Roedd y cyfan yn fendithiol iawn. Wedi'r oedfa croesawyd Siôn Corn i gyfarfod â'r plant a mwynhawyd disglaid o de a mins pei cyn troi am adre'. Diolch i bawb a fu wrthi yn trefnu ac yn paratoi.



Plant Cylch Meithrin Trefeurig yn cyflwyno stori'r Nadolig



Croesawyd ymwelwyr i Benrhyn-coch dros y Nadolig gan y coed hyn – deallir mai teulu Frondeg gododd hwy.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Yn hytrach na mynd allan i westy i ddathlu'r Nadolig, penderfynwyd cael cinio Nadolig yn Neuadd yr Eglwys. Addurnwyd y bwrdd yn effeithiol a chafwyd cinio arbennig wedi ei goginio gan Margaret Griffiths, Victoria, Y Borth. Ar ôl y wledd cafwyd hanes milltir sgwar dwy o'n haelodau, sef Katherine Livingstone yn sôn am ei hardal hi – Trelech, a Dawn Roberts yn sôn am Landrillo. Mwynhawyd y wledd a'r adloniant gan bawb. Noson gartrefol iawn.

## Priodas

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 15eg yn Eglwys Sant Ioan priodwyd Melanie Jayne Evans, merch Cliff a Gina Evans, Beechhouse a Daniel Alan Hughes o Gapel Bangor. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Ficer, y Parchg John Livingstone, a'r organydd oedd Eirwen Hughes. Pob dymuniad da i'r ddau.

## Pen blwydd

Dymuniadau gorau oddi wrth ei chyfeillion ym Mhenrhyn-coch i Megan Graham, Pleasant View gynt, sydd yn byw ers blynyddoedd yn Lerpwl, ar ei phen blwydd yn 93 oed. Safai Pleasant View ar y sgwâr ym Mhenrhyn-coch tua lle mae map y plwyf heddiw a drws nesaf i Corner House.

## Pwyllgor Apêl Trefeurig 2010

Nos Lun Ionawr 7 cynhaliwyd cyfarfod i sefydlu Pwyllgor Apêl Plwyf Trefeurig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 Ceredigion. Cadeiriwyd gan Mererid Jones, Dolhelyg, sy'n aelod o is-bwyllgor cyllid Eisteddfod 2010.

Eglurodd fod nod o £7,000 wedi ei roi i'r plwyf yn unol â fformiwla i blwyfi Ceredigion. Etholwyd y Cynghorydd Dai Suter yn Gadeirydd, Anne Morris yn Is-gadeirydd a thrysorydd; Delyth Jones yn Ysgrifennydd a Meinir Hurford yn Is-ysgrifennydd. Bydd y cyfarfod nesaf – lle gwahoddir cynrychiolwyr o sefydliadau a mudiadau y plwyf am 7.30 nos Lun Ionawr 21 yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch.

## Cylch meithrin Trefeurig

Bu wythnosau olaf tymor yr Hydref yn rhai prysur iawn wrth i ni baratoi ar gyfer ein cyngerdd Nadolig. Cynhaliwyd y cyngerdd hwnnw ar fore Mawrth, 18 Rhagfyr, yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch, a daeth tyrfa dda i'n gwylio yn cyflwyno stori'r Nadolig trwy gyfrwng meim a chân. Gwnaed casgliad tuag at Apel Plant Mewn Angen yn ystod y gwasanaeth. Ar ddydd Mercher, 19 Rhagfyr, cawsom drip i Bentre Bach Sali Mali ym Mlaenpennal a chyfle i weld Siôn Corn, ond ar ddyd Iau, 20 Rhagfyr, tro Siôn Corn oedd hi i ymweld â ni yn ein Parti Nadolig yn Neuadd y Penrhyn.

Croeso i'r wyth disgybl newydd sydd wedi ymuno â'r Cylch y tymor hwn, sef Ema, Isabelle, Stephanie, Clay, Eddie, Efan, Jack ac Osian. Gobeithio y bydda nhw'n hapus yn ein plith!

## Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Jeremy Davies, 41 Glan Ceulan, ar gael ei benodi yn Birf Ddaeregwr Cymru. Bydd yn gweithio o Gaerdydd.

## Dyweddiad

Llongyarchiadau i Lowri Jones, Rhydyrysgaw. Glan Ceulan. ar ei dyweddiad â Owain Schiavone a phob dymuniad da i'r ddau ohonynt i'r dyfodol.

## Calennig

Mor hyfryd oedd deall fod Seren a Sian Jenkins, Kerry, wedi bod o amgylch Penrhyn-coch yn canu calennig ar fore dydd Calan, yn union fel arferau eu mam a gweddill y teulu wneud. Trueni mawr bod y traddodiad hyn wedi marw allan fel llawer i draddodiad arall. Gwelir y ddwy fach yn y llun wedi bod yn canu yn Panteg ac wedi mwynhau y bore yn fawr iawn. Wrth gwrs roedd Modryb Carys yn cadw llygad arnynt ac yn gwneud yn siwr eu bod yn iawn. Da iawn chi eich dwy!

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Margaret Davies, Elan, 16 Maesyrefail, a Carol ac Andrew a'u teuluoedd ar farwolaeth sydyn Ieuan ar Ionawr 9fed yn Ysbyty Bron-glais

â Gwen a Richard Wyn Davies a'r teulu, 48 Ger-y-llan, ar farwolaeth mam Gwen ym Machynlleth.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cyhoeddodd Mairwen Jones, Ysgrifennydd yr Eisteddfod, mai llywyddion Eisteddfod 2008 fydd: nos Wener: Meinir Davies, Ponterwyd; pnawn Sadwrn Dylan Roberts, Bow Street; nos Sadwrn Rhiannon Jones, Bow Street.



Seren a Sian Jenkins Llun: Hugh Jones

## Chwedlau Chwim gan Olygydd Y Lolfa!

Mae'r Lolfa newydd gyhoeddi dwy chwedl gyntaf mewn cyfres o bump llyfr a fydd yn cael eu cyhoeddi cyn y Nadolig. Awdur y gyfres yw Meinir Edwards sydd newydd gychwyn gweithio fel golygydd i Wasg Y Lolfa. Maent wedi eu hanelu at blant tua 7-9 oed sy'n medru darllen yn annibynnol. Y nod yw cynhyrchu llyfrau lliwgar, bach o ran maint ond eang eu hapêl, i'w darllen yn chwim o glawr i glawr.

Mae gan Meinir Wyn Edwards ddeunaw mlynedd o brofiad fel athrawes mewn ysgolion cynradd, ond penderfynodd droi o brysurdeb y byd addysg er mwyn dilyn trywydd gwahanol yn y byd cyhoeddi. Wedi bod yn addasu ac ysgrifennu llyfrau i blant yn ystod penwythnosau a gwyliau, mae erbyn hyn yn troi ym myd llyfrau wrth ei gwaith bob dydd. Dywedodd,

"Roeddwn wrth fy modd yn darllen a thrafod llyfrau ar lawr y dosbarth, ac mae'n braf iawn cael y cyfle i ddod â'n chwedlau gwerin Cymreig ni'n fyw i genhedlaeth newydd o blant. Rwy wedi ceisio apelio at blant o bob cwr o Gymru, at fechgyn a merched, a dod â rhyw ogwydd ffres i bob un o'r chwedlau yn y gyfres."

Gini Wade yw arlunydd y gyfres. Mae un ar ddeg o luniau llawn lliw ym mhob un o'r llyfrau ac maent yn ychwanegu at naws a mwynhad y testun. Mae hi'n byw yn Llanidloes ac yn gweithio fel DJ.

Mae Cantre'r Gwaelod a Rhys a Meinir eisoes yn y siopau ac fe fydd Dic Penderyn, Gwylliaid Cochion Mawddwy a Maelgwn Gwynedd yn cael eu cyhoeddi cyn y Nadolig. Pris y llyfrau yw £1.95.

# COLOFN MRS JONES

Mae gan Buster ddwy broblem petai ond yn gwybod hynny. I ddeall natur ei broblemau, mae'n rhaid i chi sylweddoli fod bag bwyd sych Buster yn byw yn y 'conservatory'. Mae'n rhaid i chi hefyd ddeall fod Buster yn elyn anghymodlon i unrhyw aderyn sy'n meiddio glanio yn ei ardd, yr unig ffordd y gallant gyrraedd y bwyd a roddwn ni allan ar eu cyfer heb iddo gyfarth yw gwneud hynny pan yw ef un ai yn cysgu neu yn gwarchod y libart ffrynt. Hyn a'r dyddiau oer diwethaf yma sydd wedi peri ei broblemau,wrth gwrs,oherwydd ers dyddiau, bellach, y mae drudwy wedi bod yn dod i mewn i'n 'conservatory' ni a dwyn Pero ein pero! Ac nid rhyw ddwyn ofnus, ychwaith, y mae'n diflannu i mewn i'r bag dros ei phen a'i chynffon! A chan nad yw Buster yn credu mewn rhannu dim o'i eiddo ei - mater arall yw ein heiddo ni er mae'n rhaid nodi na ddwynodd yr hogyn ddim erioed - fe ystyriai hyn yn dipyn o broblem y byddai angen sawl cyfarthiad i'w datrys. Ac fe welai ei broblem arall pan sylweddolai nad ydym ni yn gwneud dim i'w rhwystro, fwy nag yden ni yn rhwystro y robin sydd gennym yn dod i mewn i'r 'conservatory' i glwydo....

Ond nid Buster yw thema y golofn hon, ei thema yw hyder anifeilaid pan wyddant fod croeso iddynt. Rai blynyddoedd yn ôl bellach, fe sylweddolodd Meirion a minnau fod genym gigfran yn dod i fwyta'r sborion a roddwn ar dop y sied i'r adar. Ac fe sylweddolasom hefyd ei fod wedi anafu ei goes ac mai dyna paham yr oedd mor barod i ddod at bobl. Ac aethom ati i ofalu fod cig ymysg y sborion a bu'r gigfran yn ymwelydd cyson am wythnosau. Erbyn diwedd ei ymweliadau, gadawai inni siarad ag ef a bodlonai aros yn ein hymyl a gwefreiddiol oedd medru ei wylio mor agos a gweld cryfder ei big a'i grafangau. Mae'n dal i ymweld yn ei dro a gallwn ei adnabod yn hawdd gan ei fod yn dal yn gloff ac yn dal i ymddiried ynom. Erbyn heddiw, daw a'i deulu i'r caffi ond pan awn ni allan, fe hed gweddill y teulu i ffwrdd gan ei adael ef. Ac ef yw'r unig aderyn y mae Buster yn fodlon ei anwybyddu yn ei ardd, diau fod yntau hefyd wedi nodi cryfder y pig.

Ac nid yw hyn yn newydd i mi. Pan oeddwn yn byw yn Llanwrin, roedd gennyf robin goch a ddeuai i mewn i'r tŷ i glwydo ar ben y dreser bob nos. Cysgai yno yn hogyn da - ac yn hogyn glan, hefyd, oherwydd pan euthum i siecio pen y dreser rhag ofn, nid oedd yno ddim o'i ôl. Yn yr un modd, yr oedd cartref dad a mam yn noddfa pob strae. Atom ni y deuai cŵn a chathod coll y dref, cymaint felly nes mai'r mans oedd y lle cyntaf yr âi pobl i chwilio am eu hanifeiliaid coll. Rwy'n cofio, un tro, ast labrador fridiog y meddyg yn treulio rhai dyddiau acw, wedi colli ei ffordd wrth hela ac wedi gweld dinas noddfa. Roedd hyn ychydig ddyddiau ar ôl i mi dderbyn rhyw ffurflen gan Brifysgol Aberystwyth parthed fy ffitrwydd i fynd i neuadd breswyl. Roedd yn rhaid i'r meddyg ei llenwi a dyma benderfynu yr awn i a'r ffurflen a'r ast i'r feddygfa gyda'n gilydd gan fod yr ast yn treulio llawer o'i hamser yn y feddygfa beth bynnag. Roedd y doctor wrth ei fodd yn ei gweld ac yn paldaruo sut y collodd hi - gymaint felly, fel roedd gennyf ofn darllen ei atebion i'r ffurflen. Un cwestiwn ar y ffurflen oedd sut y tybiai'r meddyg yr ymdopwn i a gadael cartref ac ofnwn yn fawr y byddai wedi rhoi mai dim ond pan welwn y gwn yn dod allan y gadawn i y tŷ!

Nid dim ond anifeilaid anwes a ddefnyddiai gartref mam a dad fel rhyw fath o westy, fe roddwyd lloches i sawl aderyn a draenog a chwningen a hyd yn oed ysgyfarnog. Roedd gan fy mam yn arbennig y nac o ddenu anifeilaid, deuent ati ar unwaith a gwyddai hithau sut i ddelio a hwy. Ac mae'n rhaid mod innau yn debycach i mam nag a feddyliaf. Ond rwyf yn methu a deall sut y mae'r anifeiliaid bach yma yn gwybod fod yna groeso a lloches iddynt gennym ni? Mae'n rhaid fod ganddynt yn wir rhyw chweched synnwyr rhyfeddol. Ond hir y pery hi a hir y medrwn ni roi cymorth iddynt. Mae yna ddigon o Pero i bawb!

GWESTY
Tynycornel
HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
**Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.**
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

# CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2008


Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 6 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

**AR DRAWS**

1. *Tad-Cu yn _ _ _ _ ei Ben*, cyfrol gan Martin Morgan yng nghyfres Llyfrau Lloerig (4)
5. *Talu'r _ _ _ _*, nofel dditectif a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1951 yn rhan o gyfres o nofelau am y Ditectif-Inspector Hopkyn (4)
8. *I _ _ _ _ Cnau*, nofel gan Marion Eames am Gymry ifainc a gefnodd ar dlodi cefn gwlad i chwilio am frasach byd ar Lannau Mersi (4)
9. *Wrth fy _ _ _ _ _ _ i*, nofel sy'n mentro i fyd y gwrthodedig gan Angharad Tomos (6)
10. Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Coeliwch neu Beidio* (3)
11. *Olion _ _ _ _ Eira*, llyfr stori-a-llun a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Lyfrau Ceredigion (2, 2)
12. Enw cyntaf un o gymeriadau enwocaf Mary Vaughan Jones (4)
14. *Llyfr Natur _ _ _ _* (4)
15. _ _ _ Campbell, awdur nifer o lyfrau ar gyfer plant bach (3)
16. *Gwalia ar _ _ _ _ _ _*, nofel hwyliog am Gymru rydd gan Marcel Williams (6)
19. Nofel rymus gan Llwyd Owen a enillodd gystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2007 (3, 6, 6)
20. Hunangofiant Stephen Jones, *O Clermont i _ _ _ _ _ _* (6)
24. *O'r _ _ _ i'r Tŵr*, rhagor o atgofion Charles Arch, awdur *Byw Dan y Bwa* (3)
25. _ _ _ _ *Glew Erwau'r Glo*, cyfrol gan Hywel Teifi Edwards ar ddelwedd y glöwr yn llenyddiaeth Cymru (4)
26. *Ci Da, _ _ _ _*, addasiad Cymraeg o *Mitch Saves the Day* gan Stephen Thraves yng nghyfres Ffred y Ffarier (4)
27. _ _ _ _ Nilsen, awdur llyfrau lliwgar i blant bach am Bonso'r ci (4)
28. *Y Llaw _ _ _*, nofel gref am yrrwr hers gan Alun Jones (3)
29. *Syllu _ _ _ _ _ _*, casgliad o 47 ysgrif gan Desmond Davies (2, 1, 3)
31. *Gwisgo'r _ _ _ _ Coch*, llyfr gan Elgan Philip Davies sy'n rhan o becyn o ddeunydd darllen difyr a baratowyd er mwyn hybu darllen ymhlith disgyblion ysgol (4)
32. _ _ _ _ (enw merch) *Cwm Cloch*, cyfrol gan Esyllt Maelor a gyhoeddwyd yn 1987 (4)
33. *Gwil _ _ _ _ a'r Gath Ddu*, nofel gan Siân Lewis i ddarllenwyr 9–11 oed am fachgen yn dyfeisio peiriant dychryn cathod (4)

**I LAWR**

1. _ _ _ *Oeri'r Gwaed*, nofel gan Islwyn Ffowc Elis a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1952 (3)
2. *Mae _ _ _ _ _ _ gan y Lleuad*, nofel fywiog am brofiadau myfyrwraig nwydus gan Elin Llwyd Morgan (6)
3. Cyflwyniad deniadol i feini hirion a chromlechi, gyda ffotograffau gan David Glyn Lewis a thestun a cherddi gan Huw Dylan Owen (5, 10)
4. _ _ _ _ _ _ *wrth Garreg* gan Eigra Lewis Roberts (6)
5. Cyhoeddodd y Dewi hwn fwy o limrigau'n ddiweddar (6)
6. Un o weisg enwocaf Cymru (1, 5)
7. Nofel hanesyddol am ddioddefaint Indiaid y Navaho gan Eirug Wyn, *I Ble'r Aeth _ _ _ _ _ _ _ _* ( 4, 1, 4)
13. Cyfrol o drefniannau i'r delyn Geltaidd gan Delyth Jenkins (2, 1, 3)
17. Un o gyfres o lyfrau am adar gan Ted Breeze Jones a gyhoeddwyd gan Wasg Dwyfor 'nôl yn 1981 (4, 2, 3)
18. Nofel ddiweddaraf 5 i lawr (6)
21. _ _ _ _ _ _ *Gwlad*, casgliad cyntaf o farddoniaeth y prifardd Elwyn Edwards (6)
22. Teitl cylchgrawn celfyddydol a nofel i blant gan Gwyn Morgan (2, 4)
23. Cymeriad yn nofel Llyfr y Flwyddyn 2005 gan Caryl Lewis (6)
24. _ _ _ _ _ _ *Plasywernen*, un o nofelau enwog T. Llew Jones (6)
30. Cyfrol yn llawn atgofion awdur a dreuliodd ei blentyndod ym Mrynrefail, *Nid Roc ond _ _ _* (3)



Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, FF, LL, TH

**Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion**

gwales.com
llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DIWRNOD Y LLYFR 06.03.2008

| |
|---|
| **ENW** |
| **CYFEIRIAD** |
| |
| **ENW'R PAPUR BRO** |

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2008. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

# COLOFN YR URDD

urdd.org

**Rhanbarth Ceredigion**
**Swyddog Datblygu - Anwen Eleri**
**anweneleri@urdd.org neu**
**01239 652150**

## Gala nofio Cynradd 2007

Cynhaliwyd Gala Nofio Cylch Aberystwyth a Thregaron ar y 7fed o Dachwedd ym mhwll nofio Plas-crug. Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu a llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.
Roedd y ddau cyntaf ym mhob ras yn nofio yng Ngala Nofio Rhanbarthol yr Urdd ar yr 20fed o Dachwedd ym mhwll nofio Plas-crug. O ganlyniad fe fydd y disgyblion canlynol yn cynrychioli Ceredigion yng Ngala nofio Cenedlaethol yr urdd ym mis Ionawr. Pob lwc i chi gyd.

## Llanelli Scarlets v Leeds

Dydd Gwener, Tachwedd 2il 2007 mi aeth 70 o ddisgyblion Cynradd ardal Ceredigion ar daith i Lanelli a hynny i weld y Scarlets yn chwarae Rygbi yn erbyn Leeds. Roedd yna 70 o aelodau hen a newydd o Ysgolion Cynradd y Sir ar y daith.
Roedd yn gêm yn arbennig gyda digon o gyffro roedd yn braf cael bod yno yn gweld Llanelli Scarlets yn ennill Leeds!

## Carnifalwn Ceredigion!

Nos Iau, Tachwedd y 22ain 2007 , cynhaliwyd Carnifalwn Ceredigion (Eisteddfod Ddwl) i'r adrannau ac aelwydydd yn Theatr Felin-fach. Yn cymryd rhan roedd Adran Cilie, Adran Emlyn, Adran Y Pandy, Adran Bro Fallen, ac Adran Bro Siôn Cwilt Enillwyd cwpan hardd y Carnifalwn gan Adran Cilie

## Sbri diri

Bu aelodau ysgolion meithrin a Chyfnod Allweddol un y cylch yn mynychu bore o adloniant pur yng nghwmni Sali Mali, Coblyn, Gwenda ac wrth gwrs Mistar Urdd. Bu'r disgyblion yn canu a dawnsio nifer o ganeuon cyfarwydd o bentref bach. Roedd y digwyddiad yn digwydd ar y cyd gyda Mudiad Ysgol Meithrin,Twf, Pentre Bach, Cyngor Sir Ceredigion ac Urdd Gobaith Cymru. Beth yw Sbri diri? Wel gweithgaredd i ysgol ysgolion / canghennau meithrin sy'n cynnwys sesiwn ganu a stori hwyliog i blant. Joio!



## Mamma Mia!

Ar ddydd Sadwrn y 1af o Ragfyr, fe fentrodd criw o aelodau'r Urdd allan i'r tywydd garw i Fryste i wylio y sioe enwog Mamma Mia. Criw yn amrywio mewn oedran o flwyddyn 9 i 13. Cychwynnodd y bws o Aberystwyth am 7 o'r gloch y bore, (bu'n rhaid codi'n gynnar!) a bant a ni drwy'r glaw a'r cesair am Loegr. Bum yn siopa Nadolig am ddwy awr, cyn mynd i'r theatr. Roedd y sioe yn wefreiddiol, yn llawn o ganeuon gwych Abba. Roedd y dawnsio, y canu a'r actio yn anhygoel o dda, ac fe fwynhaodd pob un ohonom yn fawr iawn. Rwy'n siwr i bawb ymuno yn y dawnsio a'r canu ar ddiwedd y sioe. Sioe gyda digon o 'fynd' ynddo fe, ac yn llawn sbort ac wmff. Nôl wedyn yr aethom i Ben-y-bont ar Ogwr i gael pizza. Er i ni wlychu'n 'sdecs' yn y cesair a'r gwynt gwyllt, fe joiodd pob un ohonom mas draw. Diwrnod i'w gofio! Enfys Hatcher

Hysbys: os oes gennych unrhyw newyddion am yr Urdd yr hoffech ei gynnwys yn y golofn hon, a wnewch chi ei anfon i'r cyfeiriad isod mewn da bryd i'w gynnwys yn y Papur Bro o.g.y.dd. nerysllew@hotmail.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Holwch Paul am bris ar
paul@ylolfa.com
y Lolfa
Agraffwyr
TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Y TINCER

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol



Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Gwasanaeth Nadolig

Ar yr 13eg o Ragfyr cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr ysgol. Eleni aethpwyd allan i'r gymdeithas a chynnal y perfformiad yng Nghapel Y Garn. Thema'r noson oedd 'Stori'r Geni' a chafwyd gwledd o ganu, actio a llefaru. Yr oedd hi'n braf gweld Y Garn yn orlawn a'r gynulleidfa i gyd yn datgan eu gwerthfawrogiad ar ddiwedd y perfformiad. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r gofalwr ac aelodau blaenllaw'r Garn am eu cydweithrediad a'u cyngor yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiad.

Cafwyd cyngerdd ardderchog hefyd gan Yr Uned Feithrin ar y 12fed a'r 13eg o Ragfyr yn neuadd yr ysgol. O ganlyniad i'r perfformiadau yma, codwyd £ 919 tuag at gronfa'r ysgol er mwyn prynu adnoddau hanfodol i blant yr ysgol. Yn unol â hyn fe drefnwyd casgliad tuag at ein elusen eleni, sef Oxfam; ac o ganlyniad i hyn, fe gasglwyd £200. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.



Cyngerdd Nadolig yr uned feithrin



Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Y Garn.

## Cinio Nadolig

Ar yr 8ed o Ragfyr cynhaliwyd cinio nadolig yr henoed yn yr ysgol. Bu Mrs Meinir Fleming a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 100 o bobl eiddgar iawn. Cytunodd pawb mai dyma'r cinio gorau eto! Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol.

## Partion

Bu plant yr ysgol yn ffodus iawn yn ddiweddar, gan eu bod wedi cael y cyfle i fwynhau dau barti Nadolig dau ddiwrnod o'r bron! Ar y 18fed o Ragfyr, trefnwyd parti Nadolig gan bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Roedd y parti yn agored i bawb yn yr ysgol a chynhaliwyd y dathliadau yn neuadd yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson, i Mrs Meinir Fleming am y lluniaeth blasus, i Mr Busson am ei ddisgo hynod o dda, i noddwr y noson sef Clwb Pêl-droed Bow Street ac yn olaf, diolch i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin i ddosbarthu anrhegion cynnar i'r plant ffodus ar y noson.

Trannoeth, cynhaliwyd parti'r Urdd yn yr ysgol i aelodau'r Urdd o flwyddyn 3 i flwyddyn 6. Yn ystod y miri, cafodd y plant gyfle i fwynhau gwledd o fwyd a chystadleuaeth dawnsio disgo.

## Ymweliadau

Mae'r plant wedi mwynhau nifer o weithgareddau difyr iawn yn ddiweddar; ar y 10fed o Ragfyr, fe ddaeth Arad Goch i ddiddanu blwyddyn 5 a 6. Enw'r perfformiad oedd 'Llyncu Geiriau', a'i bwrpas oedd codi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd adnabod geiriau ac o fwynhau darllen er mwyn pleser.

Ar y 17eg o Ragfyr fe aeth blwyddyn 1 i 6 a'r dosbarth meithrin i'r sinema i fwynhau y ffilm, 'Santa Clause'.

Yn ychwanegol i hyn, fe aeth hanner cant o blant sy'n derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol, i'r Neuadd Fawr i fwynhau cyngerdd yn cynnwys Côr a Cherddorfa Ieuenctid y Sir.

Fe ddaeth P.C. Gwyndaf Jones i'r ysgol ar yr 20fed o Ragfyr er mwyn sicrhau fod holl blant yr ysgol yn ddiogel dros gyfnod y Nadolig. Pwysleisiodd nifer o agweddau pwysig a chodi ymwybyddiaeth y plant o'r peryglon sydd o'n cwmpas. Hoffai'r ysgol ddiolch i Gwyndaf am ei gyngor hanfodol.

## Band

Ar yr 21ain o Ragfyr fe aeth Mr Allan Philips, athro peripatetig pres y sir, a band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynnwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

## Cwpan Coffa

Yn dilyn gwerthiant cwpan coffa'r hen ysgol; hoffwn ddatgan ein diolch i'r sawl a brynodd y cwpan. Bellach mae dros ddau gant ohonynt wedi eu gwerthu. Diolch am eich cefnogaeth.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!




Cwpan coffa yr hen ysgol (yr ysgol dop) a werthwyd yn ddiweddar o'r ysgol am £7.

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Croeso

Croeso i athrawes newydd i'r ysgol sef Miss Rhian Cory. Apwyntiwyd Miss Cory i ddysgu yn y dosbarth derbyn. Croeso iddi atom.
Croeso i ddisgyblion newydd i'r ysgol sef Celyn a Llion Edwards, Cadi Hallgrath, Elisa Martin a Cerys Garratt.

## Ffair Nadolig

Ar nos Iau gyntaf mis Rhagfyr, cynhaliwyd Ffair Nadolig yr ysgol. Cafwyd stondinau amrywiol gan nifer o fusnesau a daeth tyrfa dda i gefnogi. Daeth nifer i gefnogi ac i wario ar brynu anrhegion Nadolig cynnar. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson a llwyddwyd i godi da o arian i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon.

## Arad Goch

Croesawyd cwmni Arad Goch atom i'r ysgol. Pwrpas yr ymweliad oedd i berfformio "Llyncu Geiriau." Cafwyd llawer o hwyl wrthi yn cymryd rhan yn y gweithdy i ddilyn.

## Cyngerdd Nadolig

Yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf, cafwyd dwy noson o berfformiadau yn yr ysgol. Ar y prynhawn dydd Mawrth, cafwyd perfformiad agored i bobl y pentref cyn y perfformiadau ar y nos Fawrth a'r nos Fercher. Teitl y sioe eleni oedd "Pantolig" a chafwyd perfformiadau arbennig gan y disgyblion. Gwelwyd dau fachgen wedi gwisgo i fyny fel dwy chwaer hyll, Sinderela, y llys fam, postmon, Mair a Joseff, corachod ac wrth gwrs Dudley a'r twrci. Cafwyd neuadd orlawn ar y ddwy noson a llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion am eu holl gwaith arbennig.

## Pantolig

Sioe Nadolig Ysgol Penrhyn-coch 2007 oedd pantomeim o'r enw Pantolig, a oedd yn gymysgedd o Sinderela, Eira Wen a Stori'r Geni! Ni'n dau, Rowan Hughes a Harry Whalley, oedd yn chwarae rhan Sal a Lw: y ddwy chwaer hyll. Roedd e'n embarasing iawn oherwydd fod rhaid i ni wisgo fyny fel merched gydag amrannau hir coch, ffrogiau llaes, a gwaethaf oll – make-up! Roedd cymaint o eiriau gyda ni i'w dysgu roeddem ni'n poeni na fuasai'r sioe yn barod mewn pryd, ond ar ôl wythnosau o ymarfer daeth popeth at ei gilydd yn dda. Gwnaethom dair perfformiad o'r sioe, ac aeth pob dim yn iawn diolch byth heblaw amdanon ni'n dau a oedd yn cadw cwympo drosodd yn ein sodlau uchel…wps! Roedd pawb yn drist fod y sioe ar ben, ac roeddem ni i gyd wedi blino'n lân. Diolch byth fod y colur wedi golchi i ffwrdd!
**Harry Whalley (Sal) a Rowan Hughes (Lw), Blwyddyn 6.**

## Sinema

Yn dilyn yr holl ymdrech ar gyfer y Sioe, cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio gydag ymweliad i'r Sinema i wylio'r ffilm The Santa Clause 3.

## Parti

Cynhaliwyd ein parti Nadolig yn ystod wythnos olaf y tymor. Cafwyd gwledd o fwyd a danteithion amrywiol. Trefnwyd y parti gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y bwyd neu fu wrthi'n gweini. Cafwyd llawer o hwyl yn mwynhau. Cafwyd ymweliad arbennig gan Siôn Corn a alwodd heibio i'r ysgol er yr holl brysurdeb. Cafwyd anrhegion ganddo i bob un o'r disgyblion a chanwyd cân iddo wrth iddo fynd ymlaen ar ei daith hir. Diolch i'r garej a Swyddfa'r Post am eu rhoddion.

## Canu Carolau

Ar ôl yr holl fwyta yn y parti aeth criw o ddisgyblion, cyn-ddisgyblion a rhieni'r ysgol o gwmpas y pentref i ganu carolau. Cafwyd cyfle i ganu tu allan i'r garej a'r siop cyn symud ymlaen i ganu o amgylch Glan Ceulan a Garnwen. Cafwyd ymateb dda iawn at y canu a chodwyd arian tuag at yr ysgol. Diolch i bawb a ddaeth allan i ganu ac hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at yr ysgol.


Mrs.Jones a'r plantos yn joio parti Nadolig yr ysgol.

## Cinio Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mercher olaf y tymor. Paratowyd y cinio gan Mrs Watkins a Miss Evans. Cafwyd gwledd o fwyd a diolch i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled yn paratoi.

## Gwasanaeth Ffarwelio

Ar ddiwrnod olaf y tymor, cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol. Pwrpas y gwasanaeth oedd i ffarwelio ag un o athrawon yr ysgol. Ar y diwrnod olaf cafwyd Mrs Gill Saunders Jones yn gorffen eu gyrfa ar ôl 17eg o flynyddoedd yn yr ysgol.
Yn bresennol yn y gwasanaeth roedd Mr Gareth Jones, y Cyfarwyddwr Addysg, ffrindiau, Llywodraethwyr, rhieni a rhai cyn ddisgyblion. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd geiriau caredig gan Mr Jones, Miss Helen Davies, Mr Alun John, Mrs Glenys Morgan a'r Pennaeth. Diolchwyd i Mrs Jones am ei holl waith arbennig yn ystod y blynyddoedd ynghyd â'i hymroddiad i addysgu nifer dda iawn o ddisgyblion dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd llyfr o'i dywediadau bachog iddi gan Miss Davies ynghyd â gwaith llaw a wnaethpwyd gan bob un o ddisgyblion ei dosbarth. Cyflwynwyd iddi dysteb a blodau. Cafodd gyfle i ddweud ychydig o eiriau a chyflwynodd dderwen i'r ysgol i'w phlannu ar dir yr ysgol. Pob dymuniad da iddi am y dyfodol.


'Pantolig' - Y sioe Nadolig

## Cristingl

Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl ar brynhawn olaf y tymor yn yr Eglwys. Bu'r disgyblion wrthi yn gwneud un cristingl y teulu a chafwyd cyfle i gynnau y rhain yn ystod y gwasanaeth. Diolch i Mr Livingstone am ei groeso parod i ni i'r Eglwys.

## Argraffu â Ruth Jên

Yn gyntaf, aethon ni i'r galeri yng Nghanolfan y Celfyddydau i weld lluniau pobl eraill a sylwi pa rif oedd ar bob llun. Wedyn aethon ni i ystafell i wneud rhai ein hunain. Gwnaethom dynnu llun anifeiliaid ar deils "polystyrene" gyda phensil ac yna rholio inc du arnyn nhw. Roedd e'n waith caled achos roedd rhaid mynd nôl ac ymlaen trwy'r amser! I gael y print roedd rhaid rhoi'r teils mewn gwasgwr. Roedd y lluniau'n ffantastig! Diolch yn fawr i Ruth Jên am argraffu gyda ni. Roedd e'n hwyl a sbri!
**Jenny James a Siôn Wyn, Dosbarth 2**

# TASG Y TINCER

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Mae'n siwr bod rhai ohonoch wedi bod allan yn canu carolau dros y Nadolig, ac yn hel Calennig ar 1 Ionawr ym mhentrefi ardal Y Tincer. Gobeithio bod Siôn Corn wedi bod yn garedig iawn wrthych eleni eto! Diolch i bawb fentrodd liwio'r llun y mis diwethaf. Dyma pwy fuodd wrthi: Glesni a Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Megan Fflur, Gors Villa, Llandre; Sara Dafydd, 13 Maes y Garn, Bow Street; Alys Miriam, Tŷ'r Banc, Bont-goch; Catrin Eluned Griffiths, Tynllechwedd Bach, Y Borth a Iona Jane Morgan, Garn Rhos, Bow Street. Diolch yn arbennig i Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor am y llun hyfryd o'r pysgod aur a gyrhaeddodd yn rhy hwyr i'r Tincer diwethaf, ond diolch i ti Alison am ei anfon.

Wel, pwy sy'n ennill? Ti, Megan Fflur! Roeddwn yn hoff iawn o'r sêr yn dy lun di!

Mae llawer iawn o bobl yn mynd ar wyliau sgïo tua'r adeg hon o'r flwyddyn. Efallai eich bod chi a'r teulu ar fin mynd i'r Swistir neu Awstria, neu a ydych wedi bod ar lethr sgïo Gwersyll yr Urdd Llangrannog? Faint ydech chi'n ei wybod am y gamp? Daethpwyd o hyd i olion sgis mewn cors yn Sweden a oedd dros bedair mil oed, ac mae sôn bod pobl wedi bod yn sgïo yn Iran ddwy fil o flynyddoedd cyn Crist, ar sgis wedi eu creu o groen anifeiliaid. Ond yw hi'n anodd meddwl am bobl sgïo mewn gwlad fel Iran! Dyn o'r enw Sondre Norheim ddyfeisiodd y sgi modern yn 1870, gan ennill y ras sgïo gyntaf yn Oslo, Norwy. Yn 1888, llwyddodd Fridtjof Nansen o Norwy i groesi'r Ynys Las (Greenland) ar sgis am y tro cyntaf.


Megan Fflur

Er bod rhai pobl cyfoethog Prydain wedi bod yn mynd i St Morits ar wyliau ers canol y 19 ganrif, trefnwyd y gwyliau pecyn sgïo gyntaf i Adelboden, Y Swistir gan Syr Henry Lunn yn 1903. Erbyn hyn, mae llawer yn mynd ar wyliau i ogledd yr Eidal, Y Swistir, Awstria, Slovenia a Bwlgaria i fwynhau'r gwahanol gampau yn yr eira. Efallai y cawn ni ddigon o eira eleni fel ein bod yn medru sgïo yn mro'r Tincer!

Beth am liwio'r llun o'r ferch yn sgïo lawr y llethr? Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Chwefror 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

D J Evans
Cyfarwyddwr Angladdau
Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ
J Selwyn Evans
Perchennog
Ffôn: 01970 820249

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan
Lewis a Lorraine
Ffôn 880650

ISSN 0963-925X
Rhif 305 | Ionawr 2008